Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Trefdraeth / Aberrhigian

## Teithiau Byr

**GRADDFA:** 0 — 300 — 600 m

**PELLTER / HYD:** 3.2 milltir (5.1 km) 1 awr 30 munud


**CLUDIANT CYHOEDDUS:** Cyfeiriwch at wefan Cyngor Sir Benfro:
www.sir-benfro.gov.uk/llwybrau-bysiau-ac-amserlenni/llwybrau-bysiau-rhestr-yr-holl-fysiau

**CYMERIAD:** Ymyl clogwyn, cwm coediog, 400 m ar ymyl priffordd

**CHWILIWCH AM:** Cildraeth Aberrhigian • golygfeydd • chwarelau clogwyni'r môr sydd ddim yn cael eu defnyddio

**CYMRWCH OFAL!**

- Byddwch yn ofalus ar Lwybr yr Arfordir
- Cadwch at y llwybr ac i ffwrdd o ymylon y clogwyni
- Gwisgwch esgidiau cryfion a dillad cynnes, sy'n dal dŵr
- Cymrwch ofal arbennig mewn tywydd gwyntog a/neu wlyb
- Cadwch lygad barcut ar blant a chwn bob amser
- Cofiwch gau gatiau




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100022534.

# Trefdraeth/Aberrhigian

## Teithiau Byr

**Cludiant cyhoeddus:** Cyfeiriwch at wefan Cyngor Sir Benfro:
www.sir-benfro.gov.uk/llwybrau-bysiau-ac-amserlenni/llwybrau-bysiau-rhestr-yr-holl-fysiau

**Hyd:** 1 awr 30 munud

**Pellter:** 3.2 milltir (5.1 km)

**Cyfeirnod map:** SN043398

***Dewch i weld un o drefi masnachu hanesyddol pwysicaf y rhanbarth, a chofiwch eich bod chi'n cael cipolwg ar un o'i thraethau poblogaidd.***

**Chwiliwch am:** Cildraeth Aberrhigian, golygfeydd, chwarelau clogwyni'r môr sydd ddim yn cael eu defnyddio.

Mae gan Drefdraeth ei hun Gastell Normanaidd, ambell dŷ diddorol o'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, a dau draeth - Traeth Trefdraeth a Threfdraeth Parrog - wedi eu gwahanu gan yr afon Nyfer. Mae Traeth Trefdraeth yn draeth sy'n enwog ym myd syrffio gwynt, ond mae'r Parrog, er ei fod yn fwy cysgodol na Thraeth Trefdraeth, yn draeth mwy mwdlyd gyda rhai cerrynt peryglus.

O'r unfed ganrif ar bymtheg i'r ugeinfed ganrif gynnar roedd Trefdraeth yn ganolfan masnachu ac adeiladu cychod pwysig ac, ar un adeg, roedd gan y Parrog sawl warws (un wedi goroesi fel y Clwc Cychod). Mae yna bysgota gwych ar gyfer draenogiaid a brithyll môr yn nyfroedd yr aber.

Mae Aberrhigian yn gildraeth gysgodol ar ben Cwm Rhigian, cwm afon goediog - felly chwiliwch am adar coetir.

**Cymeriad:** Ymyl clogwyn, cwm coediog, 400 m ar ymyl priffordd .



